*Gwella bywydau gyda'n gilydd*

# Gwasanaeth Preswyl Arbenigol i Oedolion ag Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth

## Bryn Y Wawr, Sir Gaerfyrddin



**Mae Bryn y Wawr yng nghanol Llandeilo, ac mae'n wasanaeth preswyl arbenigol sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, ymddygiadau a allai herio, ac anghenion cymhleth cysylltiedig. Rydyn ni'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn, gan hyrwyddo annibyniaeth, llesiant a chyfranogiad gweithredol ym mywyd y gymuned**.

Mae Bryn y Wawr yn cynnig amgylchedd heddychlon, cartrefol a chroesawgar lle mae pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau sy'n rhoi boddhad ac ystyr. Mae rhai o'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi wedi galw Bryn y Wawr yn gartref ers dros 35 mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu sefydlogrwydd, ansawdd y gefnogaeth a'r ymdeimlad cryf o berthyn a deimlir gan y staff a'r preswylwyr.



Rhywedd cymysg | 18 oed a hŷn | 10 lleoliad



### Y bobl rydyn ni'n eu cefnogi

> Oedolion 18 oed a hŷn
> Unigolion â phrif ddiagnosis o anabledd dysgu ynghyd ag ymddygiadau sy'n herio, gan gynnwys salwch meddwl neu gefndir fforensig
> Unigolion sydd wedi cael diagnosis eilaidd o anhwylder personoliaeth neu awtistiaeth
> O bosibl â thrafferthion cyfathrebu
> O bosibl ag anghenion cymhleth cysylltiedig

## Ymgysylltu â'r gymuned

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhan ganolog o fywyd ym Mryn y Wawr. Mae pobl yn aml yn mwynhau boreau coffi ac ymweliadau â Llandeilo, ac maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol fel tripiau i'r sinema a bowlio.

Un gwirfoddolwr unigol yn cefnogi ei datblygiad sgiliau, ei hyder a'i hannibyniaeth yn lleol.

Mae'r gwasanaeth mewn lleoliad delfrydol rhwng gorsafoedd rheilffordd Llandeilo a Ffairfach, sy'n helpu'r trigolion i gael mynediad at amrywiaeth eang o weithgareddau ymhob rhan o'r rhanbarth ac mae'n hawdd i ymwelwyr gyrraedd.





Awyrgylch heddychlon a chartrefol

Cysylltiadau da â'r gymuned leol

Campfa ar y safle

Cysylltiadau cymunedol cryf a thripiau lleol rheolaidd

Gweithgareddau pwrpasol a chaban celf

Tripiau nofio wythnosol

Sesiynau Pilates preifat



Gerddi a thwnnel polythen ar gyfer tyfu ffrwythau, llysiau a blodau

Gweithgareddau llesiant

Cyfleoedd i wirfoddoli a chymryd rhan yn y gymuned

Teithiau cerdded yn y wlad

# Bywyd ym Mryn y Wawr

Ym Mryn y Wawr, rydyn ni'n annog unigolion i ddatblygu hyder ac annibyniaeth. Mae'r cymorth yn cael ei deilwra i nodau pob person, gan eu helpu i feithrin a chynnal arferion ystyrlon a meithrin cysylltiadau yn eu cymuned leol.

Mae preswylwyr yn cael eu hannog i ymfalchïo yn eu cartref fel eu cartref eu hunain ac yn cael eu cefnogi gyda thasgau bob dydd fel golchi llestri, pobi a choginio.
Mae pawb yn cael eu cefnogi i gadw eu hystafell yn lân ac i olchi eu dillad eu hunain. Felly mae'r holl breswylwyr yn datblygu sgiliau byw bob dydd hanfodol.

Mae'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi ym Mryn y Wawr yn mwynhau gweithgareddau rheolaidd, gan gynnwys nofio, teithiau cerdded wythnosol drwy Barc Dinefwr, yn ogystal â dosbarthiadau Pilates preifat - sy'n cael eu cynnal yn yr awyr agored ar y lawnt os yw'r tywydd yn braf.
Mae unigolion hefyd yn cymryd rhan mewn grwpiau lleol, cyfleoedd gwirfoddoli a digwyddiadau cymunedol, gan feithrin annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae'r gwasanaeth yn ffodus o gael ardal awyr agored helaeth, sy'n cynnwys gerddi, coed ffrwythau a thwnnel polythen lle gall pobl dyfu ffrwythau, llysiau a blodau.
Mae campfa ar y safle, a chaban gweithgareddau a chelfyddydau pwrpasol yn darparu lle ar gyfer ffitrwydd, creadigrwydd, dysgu ac ymlacio.



Social Care Referrals

I gael rhagor o wybodaeth neu i atgyfeirio, cysylltwch â'ch Rheolwr Cysylltiadau Busnes rhanbarthol neu anfonwch e-bost at: sc.referrals@cygnethealth.co.uk

1. Cynhelir asesiad bwrdd gwaith i adolygu addasrwydd y lleoliad ar gyfer yr unigolion sy'n cael eu cyfeirio atom
2. Os oes lle addas ar gael, rydyn ni'n trefnu bod ein tîm arbenigol yn cynnal asesiad
3. Rhoddir adborth ynghylch a yw ein gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn
4. Yna caiff adroddiad manwl yn cynnig lle ei gynhyrchu a fydd yn cynnwys cynlluniau gofal a gwybodaeth am gyllid
5. Ar ôl cadarnhau lle, datblygir cynlluniau pontio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, a byddwn yn cytuno ar ddyddiad i dderbyn yr unigolyn i'r cartref

## Ble rydyn ni?

**Bryn Y Wawr**
6 Heol Newydd, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin SA19 6DB

**Rhif Ffôn**
01558 822 763







CYG-1763 | Date of Preparation: 19/08/26